**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

**Adroddiad ar oblygiadau'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft ar Gymru (Mesur Seneddol)**

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft ar 21 Ebrill 2009. Mae'r Mesur drafft yn ceisio safbwyntiau ar ymateb Llywodraeth y DU i'r materion y cyfeirir atynt yn Adolygiad Pitt sy'n nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl llifogydd haf 2007[1], newid rheoliadau'r DU o ran y risg o lifogydd a materion yn ymwneud â rheoli dŵr.

1.2 Rhennir y Mesur drafft yn wyth rhan. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cymalau yn Rhan 1 o'r Mesur drafft, sy'n ymdrin â rheoli'r risg o lifogydd ac erydiad yr arfordir, yn rhoi polisïau newydd ar waith yng Nghymru. Mae'r cynigion ar gyfer rheoli'r risg o lifogydd ac erydiad yr arfordir yng Nghymru wedi'u cynnwys yn Atodiad A o'r ymgynghoriad ar y Mesur drafft.

## 2. Cefndir

2.2 Cytunodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal ymchwiliad i oblygiadau'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft ym mis Ebrill 2009.

2.2 Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyfyngedig am dystiolaeth ysgrifenedig gan sefydliadau sydd â diddordeb ym maes rheoli llifogydd a dŵr. Ceir rhestr o'r ymatebion yn Atodiad A.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i gasglu tystiolaeth lafar gan ddau randdeiliad allweddol, sef Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru yn ogystal â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

2.4 Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth ar y Mesur drafft, sef ar 10 a 24 Mehefin 2009.

## 3. Y materion a nodwyd yn y dystiolaeth

3.1 Nodwyd nifer o faterion allweddol yn y dystiolaeth a thrafodwyd sawl un gyda'r Gweinidog.

3.2 Nododd Asiantaeth yr Amgylchedd bryderon ynghylch y **broses ymgynghori**. Yn ei thystiolaeth, nododd fod Cymru gam y tu ôl i Loegr. Gan mai dim ond ymgynghoriad polisi ar gymhwyso Rhan 1 o'r Mesur drafft i Gymru a gynhaliwyd yng Nghymru o gymharu ag ymgynghoriad ar gymalau penodol fel y'i cynhaliwyd yn Lloegr, roedd yr Asiantaeth yn pryderu na fyddai'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru yn ddarostyngedig i'r un faint o waith craffu â'r cymalau sy'n berthnasol i Loegr. Nododd y Gweinidog fod angen osgoi cynnal dau ymgynghoriad ar yr un polisïau a rhoddodd sicrwydd i'r

---

[1] *The Pitt Review: Lessons learned from the 2007 floods -* http://archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

Pwyllgor y byddai'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru yn ddarostyngedig i'r un faint o waith craffu â'r cymalau sy'n berthnasol i Loegr.

3.3 Nid ydym yn fodlon ar ymateb y Gweinidog gan fod ymgynghoriad presennol Cymru ar Ran 1 o'r Mesur drafft yn ymwneud â chyfeiriad polisi. Mae ymgynghoriad eisoes wedi'i gynnal yn Lloegr ar y cyfeiriad polisi a'r cymalau yn Rhan 1 yw canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Ar hyn o bryd, nid oes cyfle i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gymalau'r Mesur sy'n berthnasol i Gymru fel sy'n bosibl ar gyfer y cymalau sy'n berthnasol i Loegr.

3.4 Un o nodau'r Mesur drafft yw **symleiddio ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â llifogydd.** Nododd sawl un a roddodd dystiolaeth bryderon ynghylch swyddogaethau arfaethedig Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn y Mesur drafft ac a fydd y cynigion yn arwain at wahaniaethau i'r bobl yr effeithir arnynt gan lifogydd.

3.5 Mae gennym yr un pryderon â'r rhai a nodwyd yn y dystiolaeth. Drwy gydol ein hymchwiliad i lifogydd yng Nghymru, un o'r materion a nodwyd amlaf oedd bod pobl sydd wedi dioddef yn sgil llifogydd yn cael eu pasio o'r naill sefydliad i'r llall cyn bod unrhyw un yn derbyn cyfrifoldeb. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi y bydd yr eglurhad a roddwyd gan y Gweinidog o'r bwriad yn y Mesur drafft yn helpu i egluro'r sefyllfa i bobl sydd wedi dioddef yn sgîl llifogydd. Dywedodd:

> "The Environment Agency has the enhanced function for flooding that is not local and local authorities have the function for local flooding."

3.6 Rydym yn croesawu bwriad y Mesur drafft o egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â draenio dŵr wyneb.

3.7 Rydym yn cytuno â phryderon Dŵr Cymru a chyfranwyr eraill nad awdurdodau lleol o bosib yw'r cyrff mwyaf priodol i weithredu a chynnal **Systemau Draenio Cynaliadwy** (SUDS) fel y cynigir yn y Mesur drafft. Rydym yn croesawu eglurhad y Gweinidog mai ei bwriad yw sicrhau bod cyrff ar wahân i awdurdodau lleol yn cael eu henwi fel cyrff priodol yng nghyd-destun cynlluniau SUDS.

3.8 Pwysleisiodd Dŵr Cymru'r ffaith nad ydynt yn **ymgyngoreion statudol** ar gyfer ceisiadau cynllunio. Goblygiadau hyn yw y gellid rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygwyr a fyddai'n gorlwytho'r system draenio a charthffosiaeth bresennol. Yn ymarferol, dywedodd fod y cyngor a roddir ganddo yn cael ei dderbyn mewn tua 95% o achosion.

3.9 Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw parhau i **chwarae rhan allweddol wrth bennu cyfeiriad strategol a dyrannu arian ar gyfer llifogydd**. Yn Lloegr, caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo i Asiantaeth yr Amgylchedd.

3.10 Mae capasiti Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni'r rôl hon yn destun pryder i ni. Rydym eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch materion yn ymwneud â chapasiti mewn perthynas â'r swyddogaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu hysgwyddo yn sgîl y Mesur Morol (swyddogaethau y mae Sefydliad Rheoli Morol Lloegr yn eu gweithredu ar hyn o bryd).

3.11 Credwn y gallai materion capasiti sy'n ymwneud â'r pwerau a gaiff eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn hytrach na sefydliadau hyd braich yn sgîl deddfwriaeth sylfaenol newydd, effeithio ar y ffordd y caiff rhannau allweddol o'r ddeddfwriaeth eu gweithredu a'u cyflawni.

**4. Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Mesur drafft**

4.1 Mae dau fater nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Mesur drafft ar hyn o bryd yn destun pryder i ni.

4.2 Roedd yr holl dystiolaeth a gawsom yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oedd canfyddiadau **Adolygiad Cave**[2] wedi'u cynnwys yn y Mesur drafft ac y byddai felly'n colli allan ar y cyfnod craffu hanfodol cyn deddfu.

4.3 Mynegodd Dŵr Cymru bryder mawr ynghylch cynnwys yr adroddiad ar adolygiad Cave a'r argymhellion o ran y gystadleuaeth yn y farchnad cyflenwi dŵr ar gyfer defnyddwyr annomestig.

4.4 Rydym yn cytuno â phryderon difrifol cyfranwyr o ran goblygiadau Adolygiad Cave ar y farchnad dŵr yng Nghymru ac yn arbennig yr effaith bosibl ar fodel di-elw Dŵr Cymru. Mae'r ffaith nad oedd y Gweinidog wedi nodi na fyddai'n cyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad dŵr yng Nghymru yn destun pryder i ni. Dywedodd:

> "I can assure you that the Assembly Government remains cautious about retail competition, and that we will not take any action that will threaten the Glas Cymru model."

4.5 Mae'r ffaith bod y Mesur drafft yn cyfeirio at gynnwys argymhellion adolygiad Walker ar brisio dŵr yn y dyfodol, nad yw wedi'i gyhoeddi eto, hefyd yn destun pryder i ni..

4.6 Yn ystod ein gwaith craffu ar y Mesur drafft, sylwyd ar anghysondeb posibl o ran rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith dŵr yng Nghymru i gwmnïau sy'n gweithredu yn Lloegr.

4.7 Rydym yn falch fod y Gweinidog wedi ymchwilio i'r anghysondeb hwn a chanfod mai gwall drafftio ydyw yn y Ddeddf Cynllunio. Rydym yn croesawu ei bwriad i drafod hyn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted â phosibl er mwyn datrys y mater.

4.8 Ceir hefyd anghysondeb yng ngeiriad y Mesur drafft mewn perthynas â chynllunio yng Nghymru, sy'n cyfeirio at gwmnïau dŵr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru er bod Deddf Cynllunio 2008 yn cyfeirio at gwmnïau dŵr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

---

[2] *Independent Review of Competition and Innovation in Water Markets: Final report – April 2009*
http://www.defra.gov.uk/environment/water/industry/cavereview/pdf/cavereview-finalreport.pdf

4.9 Er bod y Gweinidog wedi ceisio rhoi sicrwydd i ni, mae'r dryswch posibl o ganlyniad i ddefnyddio dau derm gwahanol yn dal yn destun pryder i ni.

## 5. Argymhellion

5.1 Ar sail y dystiolaeth a'r drafodaeth uchod, rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol ynghylch y Mesur drafft.

**Argymhelliad 1 – Dylai'r cymalau Cymreig mewn perthynas â Rhan1 o'r Mesur drafft fod yn ddarostyngedig i'r un broses cyn deddfu â'r rhai sy'n berthnasol i Loegr a dylid cynnal ymgynghoriad ar wahân cyn cyhoeddi'r Mesur terfynol.**

**Argymhelliad 2 – Dylid cynhyrchu canllawiau statudol drafft ar gyfer Cymru a Lloegr ar yr un adeg â'r Mesur gan amlinellu'n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau pob sefydliad y cyfeirir atynt yn y Mesur a sut y caiff y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hyn eu dosbarthu.**

**Argymhelliad 3 – Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru fel ymgyngoreion statudol o ran ceisiadau cynllunio.**

**Argymhelliad 4 – Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi asesiad manwl o oblygiadau'r pwerau ychwanegol a roddir iddi o dan y Mesur drafft, sy'n cynnwys y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau eraill o ran adnoddau.**

**Argymhelliad 5 – Dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn bod cymalau eraill yn cael eu hychwanegu i'r Mesur terfynol ar sail argymhellion adolygiadau Cave a Walker.**

**Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro ei safbwynt ar argymhellion adolygiadau Cave a Walker a nodi ei gallu i weithredu trefniadau gwahanol i Loegr o ran y farchnad dŵr.**

**Argymhelliad 7 – Pan gaiff ei gyflwyno, dylai'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft gynnwys cymal i wirio'r anghysondeb mewn perthynas â chaniatâd cynllunio ar gyfer cronfeydd dŵr yng Nghymru.**

**Atodiad A – Rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig**

Bwrdd Draenio Mewnol

Ofwat

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref

Cyswllt Amgylchedd Cymru